

Y dyn sy'n Dduw

“Wedi iddo ddweud hyn, a hwythau'n edrych, fe'i dyrchafwyd, a chipiodd cwmwl ef o'u golwg.” (adn. 9)

Beth am ddarlenn Actau 1:1–11 ac yna myfyrio

Mae'n rhyfeddol fod ein Gwaredwr ni wedi dod i'r ddaear a gwisgo ein dyndod, marw ar y groes drosom, atgyfodi o'r bedd i'n cyfiawnhau, ac esgyn i mewn i'r gogoniant i ddadlau ein hachos. Mae'r dyndod yma'n awr yn cael ei gynrychioli gan Iesu yn y nefoedd. Mae'r emyn canlynol yn atseinio yn ein calon:

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Ac yna, emyn John Elias:

Esgynnodd mewn gogoniant llawn
goruwch y nefoedd fry;
ac yno mae, ar sail ei Iawn,
yn eiriol drosom ni.

Meddyliwch fod Duw wedi dod yn ddyn, a bod yr un a fu yn ddyn yn awr yn y nefoedd. Mae'r gwir ddyn yn y gogoniant, un sydd wedi rhannu ein dyndod yn awr yn eistedd ar yr orsedd. Un o'r athrawiaethau y mae'r Eglwys wedi bod yn ei thrafod ar hyd y canrifoedd yw a ydi Duw yn medru teimlo? Sut y gall yr un sydd yn rheoli'r bydysawd gael ei flino gan ein blinderau ni? Fe all ein gweld, ein deall, ond a all adnabod ein teimladau? Mae'n siŵr y byddai'n hawdd deall fod hyn y tu hwnt i Dduw, petai Iesu erioed wedi dod i'r ddaear a gwisgo ein cnawd. Mae'n debyg fod yr ymgnawdoliad yn ychwanegu at ein gobaith ni yn Nuw. Ond a all Duw ddysgu rhywbeth? Mae'n amlwg o'r Ysgrythur fod y Mab wedi dysgu. Yn Hebraid 5:8, fe glywn hyn am Iesu: “Er ei fod yn Fab fe ddysgodd ufudd–dod trwy ei ddioddefaint.” Mae Duw yng Nghrist wedi meddiannu ein cyflwr, a bellach mae ein dyndod yn cael ei gynrychioli ar yr orsedd. Nesewch. Mae'r Duw tragwyddol yn teimlo eich teimladau.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Luc 24:36–51; Math. 16:19; Heb. 9:24

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw arwyddocâd Dydd yr Esgyniad?
2. Sut ddylem ddathlu'r dydd hwnnw?

Gweddi

O Dad, yr wyf am dy ganmol am yr anogaeth sydd i mi nesau atat ti, o gofio er na fu i ti gymryd arnat yn Iesu fy nghyflwr pechadurus, eto fe wisgaist fy nghyflwr dynol. Yr wyt yn teimlo fel yr wyf fi yn teimlo. Ni allaf fynegi fy niolch. Amen.